ASTUDIAETH ETHOLIAD CYMRU 2026 WELSH ELECTION STUDY

# Ciplun o Ddemocratiaeth a Chymdeithas yng Nghymru

## Canfyddiadau cychwynnol o Astudiaeth Etholiad Cymru, Ebrill 2026

Anwen Elias, Mohsin Hussain, Bettina Petersohn a Matt Wall

Swansea University Prifysgol Abertawe

1872 Prifysgol Aberystwyth University

WISERD

Focus Games

ENG es2026.wales CYM ae2026.cymru

# Ciplun o Ddemocratiaeth a Chymdeithas yng Nghymru

## Canfyddiadau cychwynnol o Astudiaeth Etholiad Cymru, Ebrill 2026

**Ebrill 2026**

**Anwen Elias, Mohsin Hussain, Bettina Petersohn a Matt Wall**

Caiff Astudiaeth Etholiad Cymru 2026 ei chydlynu gan dîm o ymchwilwyr o Brifysgolion Abertawe ac Aberystwyth, ac fe'i hariennir gan Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Mae'r ymchwil wedi'i gynnal mewn partneriaeth â'r Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru, a Focus Games, ac mewn cydweithrediad â Ipsos UK.

Am fwy o wybodaeth am yr adroddiad, neu am Astudiaeth Etholiad Cymru 2026, cysylltwch â **Anwen Elias (awe@aber.ac.uk)**.

# Ciplun o Ddemocratiaeth a Chymdeithas yng Nghymru

## Canfyddiadau cychwynnol o Astudiaeth Etholiad Cymru, Ebrill 2026

### 1. Trosolwg

Ar drothwy etholiad i Senedd Cymru ar 7 Mai 2026, mae'r papur briffio hwn yn cyflwyno canfyddiadau cychwynnol o don cyn-etholiad Astudiaeth Etholiad Cymru 2026. Mae'r canfyddiadau wedi'u seilio ar sampl tebygolrwydd cynrychioliadol o 10,001 o oedolion 16 oed a hŷn yng Nghymru a holwyd rhwng 26 Chwefror a 7 Ebrill 2026.[1]

Rydym yn cyflwyno data ar dair agwedd ar ddemocratiaeth a chymdeithas yng Nghymru, wrth i'r wlad baratoi i ethol cynrychiolwyr i'r seithfed Senedd:

**Agweddau tuag at ddemocratiaeth Cymru**

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar sut mae democratiaeth yn gweithio yng Nghymru (43%), er bod lleiafrif clir nad ydynt (32.7%) a doedd traean o'r ymatebwyr ddim yn gwybod sut i ateb y cwestiwn hwn.

---

[1] Cynhaliwyd yr arolwg gan Ipsos UK, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Aberystwyth, gan ddefnyddio dau ddull: Panel Gwybodaeth tebygolrwydd ar hap mewnol Ipsos, ac arolwg tebygolrwydd ar hap ad hoc i'r we. Ar gyfer y ddau ddull, cafodd ymatebwyr eu recriwtio drwy samplu tebygolrwydd ar hap trwy anfon llythyrau at gyfeiriadau a ddewiswyd ar hap, yn gwahodd preswylwyr i gymryd rhan. Mae hyn yn golygu bod gan bob cartref yng Nghymru siawns hysbys, nad yw'n sero, o gael ei ddewis. Derbyniodd aelodau'r Panel Gwybodaeth a oedd wedi'u heithrio'n ddigidol lechen a chysylltiad data cyfyngedig, am ddim, a threfnwyd cyfweliadau dros y ffôn ar gyfer gwahoddedigion yr arolwg ad hoc na allent fynd ar-lein. Mae'r data wedi'i bwysoli i broffil poblogaeth oedolion Cymru.

- Er hynny, mae pobl yn gyffredinol yn amheus o lywodraeth leol, llywodraeth Cymru ac (yn enwedig) llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU). Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, Cymru na'r DU.
- Serch hynny, mae pobl yn teimlo bod etholiadau'n bwysig a bod gwahaniaeth pwy sy'n eu hennill; mae'r teimlad hwn yn arbennig o amlwg o ran etholiadau i Senedd y DU. Roedd tair rhan o bump o'r ymatebwyr (58.9%) o'r farn ei fod o bwys pa blaid wleidyddol sydd mewn llywodraeth yng Nghymru.
- Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio sut roeddent yn teimlo am etholiad Senedd sydd ar ddod, mynegodd yr ymatebwyr yn llethol deimladau negyddol gan gynnwys siom, rhwystredigaeth a phryder. Er bod rhai yn obeithiol, maen nhw'n sicr yn y lleiafrif.

**Diddordeb a dealltwriaeth wleidyddol**

- Mae'r data yn dangos etholwyr yng Nghymru sydd â diddordeb cyffredinol mewn gwleidyddiaeth (gan gynnwys etholiad y Senedd sydd ar ddod), ond sydd â dealltwriaeth gymysg o sut mae democratiaeth yn gweithio yng Nghymru.
- Mae gwybodaeth yn uchel ynghylch pa lefel o lywodraeth (Llywodraeth Cymru yn erbyn y DU) sy'n gyfrifol am feysydd polisi fel amddiffyn, ac iaith a diwylliant; fodd bynnag, dim ond hanner yr ymatebwyr a neilltuodd y cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn gywir i Lywodraeth Cymru.
- Rydym yn gweld bwlch oedran clir o ran gwybodaeth am bwerau'r Senedd, gyda'r ymatebwyr iau yn perfformio'n gyson waeth na phobl hŷn. Dim ond 28% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 25 oed oedd yn gwybod mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y GIG yng Nghymru (o'i gymharu â 62.7% o'r rhai 65 oed a hŷn).
- Mae gwybodaeth am y diwygiadau etholiadol sydd ar waith ar gyfer 7 Mai yn isel. Ni allai dwy ran o dair o'r ymatebwyr ateb y cwestiynau'n gywir ynghylch maint cynyddol y Senedd, yr etholaethau newydd, a sut y bydd y system etholiadol yn gweithio.

**Sut olwg sydd ar fywyd i bobl Cymru**

- Yr hyn sy'n arloesol am Astudiaeth Etholiad Cymru 2026 yw set o gwestiynau am y lleoedd lle mae pobl yn byw, a'u canfyddiadau o les a chydlyniant cymunedol.
- Mae'r data yn tynnu sylw at ymdeimlad cyffredinol o ddirywiad economaidd o fewn cartrefi, ardaloedd lleol, ac yng Nghymru.
- Ar yr un pryd, mae'r ymatebwyr yn gyffredinol fodlon â'u bywydau a'r ardal leol y maent yn byw ynddi. Y bobl sy'n byw yng Ngheredigion, Gwynedd a Sir Benfro

sydd fwyaf bodlon â'u hardaloedd lleol, tra bod bodlonrwydd ar ei isaf i bobl mewn nifer o'r awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru – yn enwedig Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chasnewydd.

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo ymdeimlad clir o falchder yn y lleoedd lle maen nhw'n byw. Mae dros hanner yr ymatebwyr yn adrodd, yn eu hardaloedd lleol, bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda, a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu ymdeimlad cryf yn gyffredinol o fyw mewn cymunedau cydlynus.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r canfyddiadau allweddol hyn yn fanwl yn yr adrannau canlynol. Cyflwynir y data llawn y mae'r dadansoddiad yn seiliedig arno yn yr Atodiad ar ddiwedd yr adroddiad.


## 2. Agweddau tuag at ddemocratiaeth Cymru

Mae agweddau'r cyhoedd tuag at ddemocratiaeth o bwys. Mae anfodlonrwydd â democratiaeth yn arwydd bod sefydliadau democrataidd yn methu â chyrraedd disgwyliadau dinasyddion.[2] Yn yr un modd, gall lefelau cynyddol isel o ymddiriedaeth wleidyddol arwain at ddatgysylltiad pleidleiswyr a mwy o bolareiddio; gall hefyd danseilio gallu llywodraethau i greu polisïau sy'n cyflwyno canlyniadau polisi gwell.[3]

Gofynnon ni i bobl beth yw eu barn am ddemocratiaeth yng Nghymru, i ba raddau y maent yn ymddiried mewn gwahanol lefelau o lywodraeth, a sut maen nhw'n teimlo am etholiad y Senedd sydd ar ddod. Ar y cyfan, mae ein data yn dangos bod boddhad â democratiaeth Cymru yn uwch nac anfodlonrwydd (Ffigur 1): Mae 43% o ymatebwyr yr arolwg yn gyffredinol fodlon â sut mae ein democratiaeth yn gweithio. Serch hynny, mae lleiafrif sylweddol sy'n llai bodlon: Mae 32.7% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn weddol anfodlon neu'n anfodlon iawn gyda sut mae democratiaeth yn gweithio yng Nghymru. Adroddodd 20.4% o'r ymatebwyr hefyd nad oeddent yn gwybod sut i ateb y cwestiwn hwn.

---

[2] Centre for the Future of Democracy (2020) *Global Satisfaction with Democracy*. Prifysgol Caergrawnt.
[3] OECD (2024) Canlyniadau *OECD Survey on Drivers of Trust in Public Institutions – 2024*, OECD. Quilter-Pinner, H., Statham, R., Jennings, W. a Valgardsson, V. (2021) *Trust Issues. Dealing With Distrust in Politics,* Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus.




**Ffigur 1 – Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio yng Nghymru?**

O ran faint maen nhw'n ymddiried mewn gwahanol lefelau o lywodraeth, mae ein data yn datgelu goruchafiaeth o ddiffyg ymddiriedaeth mewn llywodraeth ar draws lefelau lleol, Cymru a Phrydain (Tabl 1). Llywodraeth y DU yw'r corff y mae ymatebwyr yn ymddiried ynddo leiaf (67.9% yn adrodd bod ganddynt ymddiriedaeth gyfyngedig neu ddim ymddiriedaeth o gwbl), ac yna Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru (48.8% a 48% gydag ymddiriedaeth gyfyngedig neu ddim ymddiriedaeth o gwbl, yn y drefn honno).

Mae teimlad negyddol tebyg yn dod i'r amlwg pan ofynnir i bobl a ydynt yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, Cymru, a'r DU yn ei gyfanrwydd (Tabl 2). Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo bod ganddynt ddylanwad ar unrhyw un o'r lefelau hyn o lywodraeth. Mae'r teimlad hwn ar ei gryfaf o ran penderfyniadau sy'n effeithio ar y DU (roedd 60.1% yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf, bod ganddynt ddylanwad), ac yna penderfyniadau ar gyfer Cymru ac ardaloedd lleol (52% a 40.9% yn y drefn honno).

**Tabl 1 - Faint o ymddiriedaeth sydd gennych yn: i) Llywodraeth Cymru, ii) eich Llywodraeth Leol, a iii) Llywodraeth y DU?**

| Sefydliad | Ymddiried yn fawr | Ymddiried i ryw raddau | Ddim yn ymddiried cymaint ynddo | Ddim yn ymddiried o gwbl ynddo | Ddim yn gwybod | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 4.1% | 36.3% | 28.6% | 19.4% | 8.6% | 3.0% |
| Llywodraeth Leol | 3.5% | 34.8% | 29.2% | 19.6% | 9.9% | 3.0% |
| Llywodraeth y DU | 2.1% | 21.0% | 29.3% | 38.6% | 6.4% | 2.7% |

**Tabl 2 - Canfyddiadau o ddylanwad dros benderfyniadau sy'n effeithio ar i) y DU yn ei gyfanrwydd, ii) Cymru, a iii) fy ardal leol**


| Lefel o Ddylanwad | Cytuno'n gryf | Tuedd i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tuedd i anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 2.8% | 15.9% | 17.3% | 27.6% | 24.4% | 9.2% | 2.9% |
| Fy ardal leol | 4.0% | 23.3% | 20.0% | 22.0% | 18.9% | 8.8% | 2.9% |
| Y DU yn ei chyfanrwydd | 1.8% | 10.0% | 16.3% | 30.9% | 29.2% | 9.0% | 2.9% |

Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae pobl yn dal i gredu bod etholiadau - a phwy sy'n eu hennill - yn bwysig (Tabl 3). Yn hyn o beth, mae'r ymatebwyr yn fwyaf pendant o ran etholiadau i Senedd y DU: Mae 67.1% o'r farn ei fod yn gwneud eitha tipyn o wahaniaeth, neu wahaniaeth mawr, pwy sy'n ennill etholiad cyffredinol. Er bod teimlad tebyg yn cael ei fynegi ynghylch y Senedd, nid yw mor gryf (53.8%). Mewn perthynas ag etholiadau Cynghorau Lleol, mae 42.1% o'n hymatebwyr o'r farn bod gwahaniaeth o ran pwy sy'n ennill, o'i gymharu â 31.9% sy'n teimlo nad yw hyn yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth, neu ddim gwahaniaeth o gwbl. Mae angen dadansoddiad pellach i ddeall beth sy'n gyrru'r amrywiadau hyn mewn canfyddiadau ar draws gwahanol lefelau llywodraeth.

**Tabl 3 - Faint o wahaniaeth ydych chi'n meddwl ei fod yn ei wneud pwy sy'n ennill yr etholiadau canlynol i i) y Senedd, ii) Senedd y DU, a iii) Cynghorau Lleol?**

| Lefel Etholiad | Gwahaniaeth mawr | Eitha tipyn | Dim llawer | Dim gwahaniaeth o gwbl | Ddim yn gwybod | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Senedd Cymru | 25.1% | 28.7% | 22.6% | 10.5% | 9.9% | 3.2% |
| Senedd y DU | 43.7% | 23.4% | 13.4% | 9.2% | 7.0% | 3.2% |
| Cynghorau Lleol | 16.8% | 25.3% | 31.9% | 13.3% | 9.3% | 3.3% |

Caiff y canfyddiad bod etholiadau'n bwysig ei gadarnhau hefyd gan ymatebion i gwestiwn yn benodol ynghylch a yw'n bwysig ai peidio pa blaid wleidyddol sydd mewn llywodraeth yng Nghymru (Ffigur 2). Anghytunodd mwyafrif – 59.8% o'r ymatebwyr - â'r datganiad nad yw pwy sy'n ennill yn gwneud gwahaniaeth, o'i gymharu â 19.3% a oedd yn cytuno. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, na fynegodd 16.8% o'r ymatebwyr farn yn y naill gyfeiriad na'r llall. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod pleidleiswyr yn deall bod gan eu pleidlais mewn etholiadau'r Senedd ganlyniadau ar gyfer sut mae Cymru yn cael ei llywodraethu, a bod pleidiau gwleidyddol gwahanol yn cynnig agenda amgen ar gyfer rhedeg y wlad.




**Ffigur 2 - Does dim ots pa blaid wleidyddol sydd yn y llywodraeth yng Nghymru**

Yn olaf, gofynnon ni i'r ymatebwyr ddweud wrthym, mewn un gair, sut roedden nhw'n teimlo am etholiad nesaf y Senedd; mae amlder a phwysau emosiynol ymatebion y cyfranogwyr wedi'u darlunio yn y cwmwl geiriau yn Ffigur 3.[4] Mae'r canlyniad yn drawiadol: mynegodd yr ymatebwyr emosiynau a oedd yn llethol negyddol (83%) o'u cymharu â rhai cadarnhaol (17%). Er bod, i rai, ymdeimlad o obaith wrth fynd i mewn i'r etholiad hwn, mae teimladau o siom, rhwystredigaeth a phryder yn llawer mwy amlwg. Mae hyn yn awgrymu bod etholwyr Cymru yn mynd at y blwch pleidleisio gyda theimlad o bryder sylweddol yn hytrach nag optimistiaeth.




**Ffigur 3 - Pan ydych chi'n meddwl am etholiad Senedd Cymru/Senedd sydd ar ddod, beth yw'r prif emosiwn rydych chi'n ei deimlo?**

I grynhoi, mae agweddau yng Nghymru yn dangos cefnogaeth i elfennau craidd democratiaeth, megis p'un a yw etholiadau'n bwysig a p'un a yw'n gwneud gwahaniaeth pwy sy'n llywodraethu. Mae yna hefyd, fodd bynnag, ddarlun cymysg o agweddau tuag at wahanol elfennau llywodraeth ddemocrataidd, megis sefydliadau, etholiadau, a dylanwad a ganfyddir dros benderfyniadau.

[4] Er mwyn sicrhau mai dim ond y teimladau mwyaf amlwg a pharhaus sy'n cael eu casglu, dim ond geiriau sydd wedi'u crybwyll dros dair gwaith sydd wedi'u cynnwys yn y delweddu. Cafodd y cynnwys emosiynol ei feintioli gan ddefnyddio Geirfa Teimlad Cyngor Ymchwil Cenedlaethol Canada, llyfrgell wedi’i dilysu sy'n mapio testun agored i gategorïau emosiynol penodol. Mae nifer y geiriau yn cynnwys o leiaf 60 gair er mwyn ei gwneud yn haws ei ddehongli.

## 3. Diddordeb a dealltwriaeth wleidyddol

Mae adroddiad diweddar ar gryfhau democratiaeth yng Nghymru yn dadlau, er mwyn i bobl gymryd rhan mewn democratiaeth, bod angen iddynt yn gyntaf ddeall sut mae'n gweithio.[5] Yn yr adran hon, rydym yn archwilio diddordeb cyffredinol cyhoedd Cymru mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd ar wahanol lefelau llywodraeth, a'u dealltwriaeth o rôl y Senedd. Mae etholiad y Senedd 2026 hefyd yn gweld newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn ethol Aelodau'r Senedd,[6] ac rydym yn archwilio i ba raddau y mae pobl yn ymwybodol o'r diwygiadau hyn.

Mae ein data yn dangos, ar y cyfan, fod gan fwyafrif yr ymatebwyr llawer o ddiddordeb neu rywfaint o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ar draws pob maes gwleidyddol (hynny yw: yn y byd ehangach, yn San Steffan ac yn y Senedd, a gwleidyddiaeth cynghorau lleol). Y maes sydd o'r diddordeb cryfaf yw gwleidyddiaeth y byd ehangach, gyda 64.9% o'r ymatebwyr â llawer o ddiddordeb neu rywfaint o ddiddordeb (Tabl 4). Mewn cyferbyniad, mae diddordeb mewn gwleidyddiaeth yn y Senedd ychydig yn is (50.2%), er bod nifer ychydig yn uwch - 59% - yn dweud bod ganddynt ddiddordeb yn etholiad nesaf y Senedd.

Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae ychydig dros draean o'r ymatebwyr (35.1%) yn teimlo eu bod yn gwybod cryn dipyn, neu lawer iawn, am sut mae Cymru yn cael ei rhedeg (Tabl 5). Mae cyfran fwy o'r ymatebwyr (43%) yn teimlo eu bod yn gwybod 'dim ond ychydig' am sut mae Cymru'n cael ei rhedeg, gydag ychydig o dan bumed (18%) yn dweud nad ydynt yn gwybod dim o gwbl.


Fe wnaethom hefyd archwilio dealltwriaeth yr ymatebwyr o rôl y Senedd. Gofynnon ni i bobl ddweud wrthym pwy yn eu barn nhw sy'n gyfrifol am amrywiaeth o feysydd polisi: Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. Mae'r canlyniadau'n cadarnhau, ar ôl 27 mlynedd o ddatganoli, bod bylchau gwybodaeth sylweddol yn parhau o ran cyfrifoldebau'r Senedd (Ffigur 5).

[5] Y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth (2026) *Tuag at ddemocratiaeth ffyniannus yng Nghymru: Adroddiad Cynnydd* Llywodraeth Cymru

[6] Senedd Cymru (2026) Newidiadau i Etholiadau ac Aelodau'r Senedd. Senedd Cymru.

**Tabl 4 - Faint o ddiddordeb fyddech chi'n dweud sydd gennych yn y canlynol: i) gwleidyddiaeth yn y Senedd, ii) etholiad nesaf y Senedd, iii) gwleidyddiaeth cynghorau lleol, iv) gwleidyddiaeth yn San Steffan, a v) gwleidyddiaeth y byd ehangach?**


| Maes Gwleidyddol | Llawer o ddiddordeb | Rhywfaint o ddiddordeb | Dim llawer o ddiddordeb | Dim diddordeb o gwbl | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwleidyddiaeth yn y Senedd | 12.5% | 38.7% | 29.7% | 16.5% | 2.6% |
| Etholiad Senedd sydd ar ddod | 25.3% | 33.7% | 24.6% | 14.1% | 2.3% |
| Gwleidyddiaeth y Cyngor Lleol | 20.1% | 40.8% | 24.1% | 12.6% | 2.4% |
| Gwleidyddiaeth yn San Steffan | 22.2% | 40.2% | 21.1% | 14.2% | 2.3% |
| Gwleidyddiaeth y Byd Ehangach | 24.8% | 40.1% | 20.8% | 12.1% | 2.2% |




**Ffigur 4 - Faint ydych chi'n teimlo eich bod chi'n ei wybod am sut mae Cymru'n cael ei rhedeg?**

Ar draws 11 cwestiwn gwybodaeth wleidyddol, roedd y lefelau uchaf o ddealltwriaeth am bwerau Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag iaith a diwylliant, ffyrdd, a thai. Adnabu hanner yr ymatebwyr yn gywir fod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb hefyd am y GIG (49.6%), tra bod mwyafrif wedi priodoli'r cyfrifoldeb am amaethyddiaeth, a busnes a datblygu economaidd, yn anghywir i lywodraeth y DU.

Nododd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn gywir mai Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am amddiffyn a materion tramor, y llys a'r systemau cyfiawnder troseddol, lles, a darlledu a'r cyfryngau. Fodd bynnag, fe wnaeth bron i dri o bob pum ymatebydd gam-adnabod plismona fel cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, yn hytrach na Llywodraeth y DU.





**Ffigur 5 - Gwybodaeth am gyfrifoldebau polisi Llywodraeth Cymru yn erbyn Llywodraeth y DU**

Nodyn: Canran yr ymatebwyr a adnabu'n gywir lefel lywodraeth oedd yn gyfrifol am bob maes polisi, wedi'u trefnu o'r cywirdeb mwyaf i'r isaf.

Mae ein data yn awgrymu bod y bwlch gwybodaeth hwn yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau oedran. Yn gyffredinol, mae ymatebwyr hŷn yn well na phobl ifanc am neilltuo meysydd polisi i'r lefel gywir o lywodraeth; mae hon yn duedd gyson ar draws y meysydd polisi. Er enghraifft, dim ond 28% o'r ymatebwyr 16-24 oed a atebodd yn gywir mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y GIG (o'i gymharu

â 62.7% o'r rhai dros 65 oed) (gweler Ffigur 6). Rydym yn gweld bwlch tebyg, er ei fod ychydig yn llai amlwg (tua 20%), yng ngallu ymatebwyr iau o'i gymharu â rhai hŷn i neilltuo cyfrifoldeb llywodraethol yn gywir am y llysoedd a chyfiawnder troseddol, amddiffyn a materion tramor, tai, ffyrdd, a lles a budd-daliadau. Rydym yn darparu'r data llawn ar yr holl ystodau oedran a'r meysydd polisi yn yr Atodlen.




**Ffigur 6 - Gwybodaeth am gyfrifoldeb dros y GIG, Llywodraeth Cymru yn erbyn Llywodraeth y DU, wedi'i ddangos yn ôl oedran yr ymatebydd**

Nodyn: Canran yr ymatebwyr a adnabu'n gywir lefel lywodraeth oedd yn gyfrifol am bob maes polisi, wedi'u trefnu o'r cywirdeb mwyaf i'r isaf.

Yn olaf, gofynnon ni i'r ymatebwyr am eu gwybodaeth am rai o'r newidiadau etholiadol sydd eisoes wedi'u gweithredu yng Nghymru (megis gostwng yr oedran pleidleisio o 18 i 16 yn 2020) a fydd ar waith ar gyfer etholiad nesaf y Senedd (cynnydd yn nifer aelodau'r Senedd o 60 i 96, 16 o etholaethau etholiadol newydd, a system etholiadol gymesur i ethol 6 chynrychiolydd fesul etholaeth).

I wneud hyn, gofynnon ni gyfres o gwestiynau amlddewis am oedran pleidleisio a nodweddion y system etholiadol newydd; gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis yr hyn a feddylient oedd yr ateb cywir. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr (61.5%) yn gywir mai 16 yw oedran pleidleisio yng Nghymru. Roedd gwybodaeth am y diwygiadau etholiadol sy'n dod i rym ar gyfer etholiad y Senedd ar 7 Mai, fodd bynnag, yn gyffredinol yn isel iawn: atebodd mwyafrif clir o bleidleiswyr 'ddim yn gwybod' neu 'yn well gen i beidio â dweud' i'r cwestiynau hyn.

O fewn y sylfaen wybodaeth isel hon, mae ychydig mwy o ymwybyddiaeth o nifer yr aelodau Senedd a fydd yn cael eu hethol (29.9%), ac o dan y system etholiadol newydd bydd pob pleidleisiwr yn gallu bwrw un bleidlais yn unig (24.1%). Mae llai o wybodaeth gymharol am nifer yr ASau sy'n cynrychioli pob etholaeth (14.9%), a hyd

yn oed llai am weithrediad system y rhestr gaeedig ar gyfer cynrychiolaeth gyfrannol (11.6%). Dylid nodi, fodd bynnag, y casglwyd y data hwn rhwng 26 Chwefror a 7 Ebrill 2026. Mae'n cynnig llinell sylfaen ar gyfer tonnau'r Astudiaeth Etholiad Cymru 2026 yn y dyfodol i werthuso a yw lefelau gwybodaeth am y system etholiadol newydd yn cynyddu yn ystod yr ymgyrch etholiadol.

**Tabl 6 - Gwybodaeth am y system etholiadol ar gyfer etholiad Senedd sydd ar ddod**

| Maes gwybodaeth | Cywir | Anghywir | Ddim yn gwybod / Yn well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|
| Oedran Pleidleisio (16) | 61.5% | 22.6% | 15.9% |
| Nifer y Pleidleisiau (Un bleidlais) | 24.1% | 15.1% | 60.8% |
| ASau fesul Etholaeth (6) | 14.9% | 15.6% | 69.4% |
| Cyfanswm ASau (96) | 29.9% | 8.3% | 61.8% |
| Sut Mae Rhestrau Caeedig yn Gweithio (Anghywir) | 11.6% | 16.1% | 72.3% |


Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod gan etholwyr yng Nghymru ddiddordeb cyffredinol mewn gwleidyddiaeth, gan gynnwys etholiad y Senedd sydd ar ddod. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth o sut mae democratiaeth yn gweithio yng Nghymru yn gymysg, tra bod gwybodaeth am y diwygiadau etholiadol sydd ar waith ar gyfer yr etholiad nesaf yn gyfyngedig.

## 4. Sut olwg sydd ar fywyd i bobl yng Nghymru

Yr hyn sy'n arloesol am Astudiaeth Etholiad Cymru 2026 yw set o gwestiynau sy'n archwilio sut y mae pobl yn teimlo am eu bywydau yn gyffredinol, a'r lleoedd lle maen nhw'n byw. Mae'r cwestiynau hyn yn caniatáu i ni archwilio dimensiynau lles a chydlyniant cymunedol (neu gymdeithasol) yng Nghymru, sef, "y graddau y mae pobl mewn cymuned yn trin ei gilydd â pharch, yn cyd-dynnu ac yn cymryd rhan i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at eu hawliau dynol a chyflawni eu

potensial".[7] Rydym yn cyflwyno detholiad o'r data yma; mewn dadansoddiadau yn y dyfodol, byddwn yn defnyddio'r rhain (a chwestiynau ychwanegol) i archwilio sut mae canfyddiadau o les a chydlyniant cymunedol yn cysylltu ag agweddau ehangach tuag at ddemocratiaeth Cymru ac yn llywio dewisiadau gwleidyddol.


Pan ofynnwyd iddynt raddio pa mor fodlon y maent yn teimlo gyda'u bywyd (Ffigur 7), adroddodd yr ymatebwyr ar gyfartaledd eu bod yn gyffredinol fodlon (sgôr cyfartalog o 6.57/10). Gofynnon ni hefyd i'r ymatebwyr pa mor fodlon oedden nhw gyda'u hardal leol[8] fel lle i fyw; dangosir lefel gyfartalog o foddhad gyda phob ardal awdurdod lleol yn Ffigur 8 isod. Pobl yng Ngheredigion, Gwynedd a Sir Benfro sydd fwyaf bodlon yn hyn o beth, gyda phobl mewn sawl un o'r awdurdodau lleol yn Neddwyrain Cymru – yn enwedig Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chasnewydd – yn llai bodlon.




**Ffigur 7 - Pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd y dyddiau hyn?**

[7] Llywodraeth Cymru (2026) *Egwyddorion Cydlyniant Cymunedol i Ymarferwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru


[8] Diffinnir yr ardal leol fel 'ardal o fewn 15 i 20 munud o gerdded o'ch cartref'.




**Ffigur 8 - Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch ardal leol fel lle i fyw?[9]**

Gofynnon ni hefyd i'r ymatebwyr sut maen nhw'n teimlo am y lleoedd lle maen nhw'n byw, a'r bobl sy'n byw yno. Mae'r canlyniadau ar y cyfan yn awgrymu agwedd gadarnhaol tuag at ardaloedd lleol: mae'r mwyafrif yn cytuno bod pobl yn cyd-dynnu i wella'r ardal leol (37.9%), bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda (53.8%), a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth (59.6%). Adlewyrchir y teimlad cadarnhaol hwn hefyd yn yr ymdeimlad o falchder y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei deimlo tuag at eu hardal leol, gyda 59.2% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad.

[9] Yr ardaloedd melyn ac oren golau sy'n sgorio islaw cyfartaledd rhanbarthol o 6.66, er eu bod yn parhau i fod uwchlaw'r man canol damcaniaethol o 5 (Niwtral).





**Ffigur 9 – Canfyddiadau o'r ardal leol a chymunedau**

Yn olaf, gofynnon ni i bobl am sut mae'r sefyllfa economaidd yn eu hardal leol a Chymru wedi newid dros y 12 mis diwethaf (Tabl 8). Mae mwyafrif clir yn teimlo bod pethau wedi gwaethygu (58.9% a 63.9% yn y drefn honno), gyda llai na 5% o'r ymatebwyr o'r farn bod y sefyllfa economaidd leol ac yng Nghymru wedi gwella. Wrth ystyried dosbarthiad daearyddol y teimlad hwn o ddirywiad economaidd yn yr ardaloedd lle mae teimlir ef yn bennaf yn ardaloedd y Gogledd (ac eithrio Ynys Môn) a Gorllewin Cymru, yn ogystal â chymoedd De Cymru (Ffigwr 10).

Mae teimlad tebyg yn dod i'r amlwg pan ofynnir i bobl am y sefyllfa economaidd yn eu cartref ers etholiad Senedd diwethaf 2021. Er bod 27.0% yn adrodd nad oes newid, i'r mwyafrif (54.8%) mae eu profiad hefyd wedi bod yn un o ddirywiad.

**Tabl 8 - Sut mae'r sefyllfa economaidd gyffredinol wedi newid i) yn eich ardal leol/Cymru dros y 12 mis diwethaf, ac ii) i chi a'ch cartref ers etholiad blaenorol y Senedd yn 2021?**

| Sefyllfa economaidd | Wedi gwella llawer | Wedi gwella ychydig | Wedi aros tua'r un fath | Wedi dirywio ychydig | Wedi dirywio llawer | Ddim yn gwybod | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 0.4% | 3.8% | 16.8% | 30.2% | 33.7% | 12.4% | 2.6% |
| Ardal Leol | 0.6% | 3.5% | 22.7% | 31.4% | 27.1% | 12.4% | 2.2% |
| Cartref | 2.0% | 7.5% | 27.0% | 30.8% | 24.0% | Amherthnasol | 8.7% |




**Ffigur 10 - Sut mae'r sefyllfa economaidd gyffredinol yn eich ardal leol wedi newid dros y 12 mis diwethaf?**

Ar y cyfan, mae'r data hwn yn awgrymu, er bod y cyd-destun economaidd wedi mynd yn fwyfwy heriol dros y blynyddoedd diwethaf, bod pobl yn parhau i fod yn

gyffredinol gadarnhaol am y lleoedd lle maent yn byw. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu ymdeimlad cryf yn gyffredinol o fyw mewn cymunedau cydlynus mewn sawl rhan o Gymru.

## Atodiad - Tablau gyda dosbarthiad yr ymatebion

Mae'r atodiad yn cyflwyno'r data mewn tablau ar gyfer y ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad.

**Tabl A1 – Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio yng Nghymru?**

| Lefel Fodlonrwydd | % |
|---|---|
| Bodlon iawn | 4.0% |
| Gweddol fodlon | 39.0% |
| Gweddol anfodlon | 21.7% |
| Anfodlon iawn | 11.0% |
| Ddim yn gwybod | 20.4% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 3.8% |

**Tabl A2 - Does dim ots pa blaid wleidyddol sydd mewn llywodraeth yng Nghymru**

| Barn | % |
|---|---|
| Cytuno'n gryf | 6.3% |
| Tuedd i gytuno | 13.0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 16.8% |
| Tuedd i anghytuno | 21.5% |
| Anghytuno'n gryf | 38.3% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 4.1% |

**Tabl A3 - Pan ydych chi'n meddwl am etholiad Senedd Cymru sydd ar ddod, beth yw'r prif emosiwn rydych chi'n ei deimlo?**

| Emosiwn | Amlder |
|---|---|
| gobaith | 738 |
| siomedig | 578 |
| rhwystredigaeth | 487 |
| pryderus | 453 |
| gwastraff | 447 |
| anobaith | 432 |
| newid | 330 |
| ofn | 330 |
| difaterwch | 316 |
| gorbryder | 264 |

| | |
|---|---|
| dicter | 258 |
| pryderus | 240 |
| dryswch | 216 |
| dig | 200 |
| ansicr | 200 |
| anobaith | 158 |
| diflastod | 119 |
| gwael | 116 |
| apathi | 108 |
| cyffrous | 108 |
| gorbryderus | 106 |
| nerfus | 95 |
| siom | 84 |
| anghyfreithlon | 84 |
| anhapus | 84 |
| dibwynt | 80 |
| drwgdybiaeth | 78 |
| ofnus | 76 |
| anesmwythder | 72 |
| iselder | 68 |
| anfodlonrwydd | 62 |
| gwella | 62 |
| arswyd | 61 |
| hyder | 60 |
| ennill | 48 |
| ildio | 47 |
| gonest | 45 |
| hapus | 40 |
| gwaeth | 38 |
| wedi torri | 36 |
| wedi difetha | 36 |
| dadrithiad | 33 |
| gorwedd | 33 |
| casáu | 32 |
| colli | 32 |
| ofnadwy | 32 |
| trychineb | 30 |
| annibyniaeth | 30 |
| balchder | 30 |
| wedi dinistrio | 27 |
| digalon | 27 |
| llid | 27 |
| anhrefn | 24 |
| anhapusrwydd | 24 |
| amheuaeth | 24 |
| balch | 24 |

| | |
|---|---|
| tynnu | 24 |
| cyfle | 23 |
| diymadferth | 22 |
| difater | 21 |
| yn methu | 21 |
| mantais | 21 |

**Tabl A5 - Faint ydych chi'n teimlo eich bod chi'n ei wybod am sut mae Cymru'n cael ei rhedeg?**

| Lefel Wybodaeth | % |
|---|---|
| Llawer iawn | 5.3% |
| Yn weddol wybodus ohono | 29.8% |
| Dim ond ychydig | 43.0% |
| Dim byd o gwbl | 18.0% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 3.9% |

**Tabl A5 - Gwybodaeth am gyfrifoldebau polisi Llywodraeth Cymru yn erbyn Llywodraeth y DU**

| Maes Polisi | Ateb Cywir | Priodoliad Cywir (%) |
|---|---|---|
| Amddiffyn a materion tramor | Llywodraeth y DU | 81.8% |
| Iaith a diwylliant | Llywodraeth Cymru | 70.8% |
| Llysoedd a chyfiawnder troseddol | Llywodraeth y DU | 70.7% |
| Ffyrdd | Llywodraeth Cymru | 69.3% |
| Lles a budd-daliadau | Llywodraeth y DU | 68.8% |
| Darlledu a'r cyfryngau | Llywodraeth y DU | 67.5% |
| Tai | Llywodraeth Cymru | 59.5% |
| Y GIG | Llywodraeth Cymru | 49.6% |

| | | |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | Llywodraeth Cymru | 44.9% |
| Plismona | Llywodraeth y DU | 41.6% |
| Busnes a datblygu economaidd | Llywodraeth Cymru | 41.1% |

**Tabl A6 Gwybodaeth am gyfrifoldebau polisi Llywodraeth Cymru yn erbyn Llywodraeth y DU (yn ôl oedran)**

Nodyn: Canran yr ymatebwyr ym mhob grŵp oedran a adnabu'n gywir y lefel lywodraeth oedd yn gyfrifol am bob maes polisi.

| Maes Polisi | 16-24 | 25-44 | 45-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 44.5% | 40.2% | 44.8% | 52.6% |
| Darlledu a'r cyfryngau | 53.5% | 67.5% | 72.4% | 72.3% |
| Busnes a datblygu economaidd | 31.1% | 36.3% | 45.6% | 48.1% |
| Llysoedd a chyfiawnder troseddol | 57.9% | 68.5% | 75.5% | 78.0% |
| Amddiffyn a materion tramor | 70.2% | 78.3% | 86.7% | 89.7% |
| Tai | 48.9% | 52.9% | 65.1% | 68.2% |
| Iaith a diwylliant | 63.0% | 65.1% | 74.3% | 80.9% |
| Plismona | 34.8% | 42.6% | 44.5% | 42.8% |
| Ffyrdd | 56.3% | 65.4% | 72.9% | 78.4% |
| Y GIG | 28.0% | 42.0% | 55.5% | 62.7% |
| Lles a budd-daliadau | 51.7% | 66.7% | 75.7% | 74.7% |

**Tabl A7 - Pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd y dyddiau hyn?**

| **Lefel Fodlonrwydd (0-10)** | **%** |
|---|---|
| 0 Anfodlon iawn | 2.0% |
| 1 | 1.3% |
| 2 | 1.7% |

| | |
|---|---|
| 3 | 4.0% |
| 4 | 4.6% |
| 5 | 10.9% |
| 6 | 11.6% |
| 7 | 20.7% |
| 8 | 23.3% |
| 9 | 9.1% |
| 10 Bodlon iawn | 9.5% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1.2% |

### Tabl A8 - Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch ardal leol fel lle i fyw?

| Lefel Fodlonrwydd (0-10) | % |
|---|---|
| 0 Anfodlon iawn | 2.1% |
| 1 | 0.8% |
| 2 | 2.1% |
| 3 | 3.0% |
| 4 | 5.4% |
| 5 | 9.4% |
| 6 | 10.1% |
| 7 | 17.7% |
| 8 | 21.7% |
| 9 | 11.6% |
| 10 Bodlon iawn | 15.3% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 0.7% |

### Tabl A9 - Canfyddiadau o fy ardal leol

| Canfyddiad o'r ardal leol | Cytuno'n gı | Tued gytu | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tuedd i anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae pobl yn cyd-dynnu i'w wella | 7.4 | 30.5 | 29.7% | 18.0% | 7.4% | 6.4% | 0.6% |
| Mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda | 10.9 | 42.9 | 22.1% | 10.2% | 4.2% | 8.9% | 0.7% |
| Rwy'n teimlo'n falch o fyw yn fy ardal leol | 22.7 | 36.5 | 23.1% | 9.6% | 5.6% | 1.6% | 0.9% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth | 14.2 | 45.4 | 18.5% | 13.1% | 5.7% | 2.5% | 0.6% |